**CYNGOR CYMUNED DOLBENMAEN**

**Gweithdrefn Gwyno**

1. Mae Cyngor Cymuned Dolbenmaen wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth o ansawdd er budd y bobl sy'n byw neu sy'n gweithio yn ei ardal neu'r rhai sy'n ymweld â'r ardal. Os ydych yn anfodlon gyda safon y gwasanaeth yr ydych wedi ei gael gan y cyngor hwn neu os ydych yn anfodlon ynghylch gweithred neu ddiffyg gweithredu gan y cyngor hwn, mae'r Weithdrefn Gwyno hon yn nodi sut y mae modd i chi gwyno i'r cyngor, a sut fyddwn yn ceisio datrys eich cwyn. **Fodd bynnag, er mwyn sicrhau ymchwiliad, dilyniant, a datrysiad priodol, ni fydd y Cyngor yn derbyn nac yn ymateb i gwynion dienw.**

2. Mae'r Weithdrefn Gwyno hon yn berthnasol i gwynion ynghylch gweithdrefnau a gweinyddiaeth y cyngor, ac fe allai gynnwys cwynion ynghylch sut y mae cyflogeion y cyngor wedi delio gyda'r pryderon.

3. Nid yw'r Weithdrefn Gwyno hon yn berthnasol i:

3.1. gwynion a wneir gan un o gyflogeion y cyngor yn erbyn un o gyflogeion eraill y cyngor, neu rhwng un o gyflogeion y cyngor a'r cyngor fel cyflogwr. Caiff y materion hyn eu trin dan weithdrefnau disgyblu a chwyno y cyngor.

3.2. cwynion yn erbyn cynghorwyr neu berson arall a chanddo/i hawliau pleidleisio. Mae'r Cod Ymddygiad i Aelodau a fabwysiadwyd gan y Cyngor yn delio â chwynion a wneir yn erbyn cynghorwyr neu berson arall a chanddo/i hawliau pleidleisio, ac os bydd y cyngor yn cael cwyn yn erbyn cynghorydd, caiff ei chyfeirio at unai:

• Yr Ombwdsman, sydd yn gweinyddu trefn gwynion ffurfiol.

• Trefn ddatrys mewnol (aelod ar aelod / swyddog) * hwn eto i'w fabwysiadu'n ffurfiol.

Mae modd cael gwybodaeth bellach ynghylch y broses o ddelio gyda chwynion yn erbyn cynghorwyr gan Swyddog Monitro Cyngor Gwynedd.

4. Yr amser priodol er mwyn dylanwadu ar y broses pan fo'r Cyngor yn gwneud penderfyniadau yw trwy fynegi'ch pryderon cyn i'r Cyngor drafod a phleidleisio am fater. Mae modd i chi wneud hyn trwy ysgrifennu at y Cyngor cyn y cyfarfod pan fydd yr eitem yn cael ei thrafod. Yn ogystal, efallai y bydd cyfle i fynegi'ch pryderon yn yr adran ar gyfer cyfranogiad y cyhoedd yn ystod cyfarfodydd y Cyngor. Os byddwch yn anfodlon gyda phenderfyniad a wnaethpwyd gan y Cyngor, mae modd i chi gyfleu eich pryderon i'r Cyngor, ond mae Rheolau Sefydlog yn atal y Cyngor rhag ail-agor materion am chwe mis o ddyddiad y penderfyniad, oni bai bod rhesymau arbennig dros farnu bod hyn yn angenrheidiol, a bod y broses arbennig a nodir yn y Rheolau Sefydlog yn cael ei dilyn.

5. Mae modd i chi gyfleu eich cwyn am weithdrefnau neu weinyddiaeth y cyngor i'r Clerc. Mae modd i chi wneud hyn yn bersonol, dros y ffôn neu yn ysgrifenedig neu mewn neges e-bost i'r Clerc. Os yn gwneud eich cwyn yn bersonol neu dros y ffôn, gofynnir i chi ddilyn

gyda e-bost neu lythyr. Mae hyn er mwyn sicrhau cofnod, cywirdeb a chyd-destun cywir. Nodir y cyfeiriadau a'r rhifau isod.

6. Pryd bynnag y bo modd, bydd y Clerc yn ceisio datrys eich cwyn ar unwaith. Os na fydd modd gwneud hyn, bydd y Clerc fel arfer yn ceisio cydnabod eich cwyn cyn pen pum diwrnod gwaith.

7. Os na fyddwch yn dymuno adrodd eich cwyn i'r Clerc, bydd modd i chi gyfleu eich cwyn i Gadeirydd y Cyngor yn uniongyrchol, a fydd yn adrodd eich cwyn i'r Cyngor (pan fo hynny'n briodol).

8. Bydd y Clerc neu Bwyllgor Cwynion y Cyngor neu'r Cyngor (pan fo hynny'n briodol) yn ymchwilio i bob cwyn, gan sicrhau gwybodaeth bellach yn ôl yr angen gennych chi a/neu gan staff neu aelodau'r Cyngor.

9. Bydd Clerc neu Gadeirydd y Cyngor yn eich hysbysu cyn pen 20 diwrnod gwaith o ganlyniad eich cwyn a'r camau (os o gwbl) y mae'r Cyngor yn bwriadu eu cymryd o ganlyniad i'ch cwyn. (Mewn achosion arbennig, efallai y bydd yn rhaid ymestyn y cyfnod o ugain diwrnod gwaith. Os bydd yn cael ei ymestyn, byddwch yn cael eich hysbysu).

10. Os byddwch yn anfodlon gyda'r ymateb a gawsoch i'ch cwyn, mae modd i chi ofyn i'ch cwyn gael ei chyfeirio at Bwyllgor Cwynion Cyngor Cymuned Dolbenmaen neu i'r Cyngor llawn (pan fo hynny'n briodol) a (chyn pen wyth wythnos fel arfer) byddwch yn cael hysbysiad ysgrifenedig o ganlyniad yr adolygiad o'ch cwyn wreiddiol.

**Cyswllt**


Clerc: Miss Eleri Davies

Cyfeiriad: Cartrefle, Bryncir, Garndolbenmaen, LL51 9LX

Ffôn: 07557125477 (ar ôl 6yh)

E-bost: cyngordolbenmaen@outlook.com